# DATBLYGU EICH BUSNES

## Mawrth – Mai 2018

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

### Statws RAG


**Coch: Dan y targed** **Oren: Bron â chyrraedd y targed** **Gwyrdd: Ar y trywydd iawn**

**Cyfanswm sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio ers 1/10/2015**


**8797** BUSNES a **17259** UNIGOLYN

### Gwasanaeth Cynghori

Ceisiadau a gymeradwywyd




Ceisiadau a Gymeradwywyd fesul Categori




### Astudiaeth Achos

**Ffermwyr yn gweithredu er mwyn mynd i'r afael â llygredd amaethyddol yng Nghymru**

Mae dros 1000 o ffermwyr wedi gwneud cais am arian ar gyfer Cynllun Rheoli Maetholion (NMP) a drefnir trwy Wasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio. Cwblhawyd y mwyafrif o'r cynlluniau hyn ystod gaeaf 2017-18. Mae'r cynlluniau hyn yn darparu ffermwyr gyda chyngor wedi'i deilwra i'w ffermydd unigol a fydd er lles yr amgylchedd, yn gwella priddoedd ffermydd a lleihau'r gwariant ar fewnbynnau.

Gall ffermwyr sydd wedi cofrestru gyda Chyswllt Ffermio dderbyn cymorthdal o hyd at 80% ar gyfer NMP neu gellir eu hariannu'n llawn fel cyngor grŵp ar gyfer busnesau sydd wedi cofrestru gyda Chyswllt Ffermio.

Mae nifer o'r ffermydd sydd wedi gwneud cais am NMP bellach yn manteisio ar gefnogaeth dechnegol wahanol a ddarperir gan y Gwasanaeth Cynghori, er enghraifft cyngor ar bynciau megis isadeiledd a rheoli porfa i enwi ond ychydig.

Cliciwch yma i ddysgu mwy.

### Cymorthfeydd Un-i-Un

Mae cymorthfeydd yn cynnig apwyntiad un-i-un awr o hyd gydag ymgynghorydd mewn lleoliadau penodol.

Un i Un

**Targed blynyddol = 60 Targed a gyflawnwyd = 26**

**7** CYMHORTHFA ADOLYGU BUSNES DIGIDOL

**3** CYMHORTHFA ADOLYGU BUSNES

**5** CYMHORTHFA OLYNIAETH

**3** CYMHORTHFA MARCHNATA AC ARALLGYFEIRIO

**2** CYMHORTHFA TECHNOLEG GWYBODAETH

**2** CYMHORTHFA MENTRO DIGIDOL

**1** CYMHORTHFA OLYNIAETH DIGIDOL


**3** CYMHORTHFA CYNLLUNIO

### Cymhorthfeydd Olyniaeth

**5** CYMHORTHFA **31** BUSNES YN MYNYCHU

Mae cymhorthfeydd olyniaeth yn rhoi'r cyfle i fynychwyr drafod llunio cynllun olyniaeth ar gyfer y dyfodol.

Busnesau fesul Sector




Mathau o ymholiadau a dderbyniwyd:

CYNLLUNIAU OLYNIAETH

RHWYMEDIGAETHAU TRETH

TROSGLWYDDO ASEDAU

MENTRAU AR Y CYD A FFERMIO CYTUNDEB

## Astudiaeth Achos

### Cymhorthfa Olyniaeth

Gall cymhorthfeydd olyniaeth roi arweiniad ar gynlluniau ymddeol, dosrannu asedau, rheolau a threthi, a throsglwyddo tir er mwyn trosglwyddo'n esmwyth i ffermwyr y genhedlaeth nesaf.

Lleoliad: Dolgellau

Mis: Mai

Ymgynghorydd: Caryl Vaughan, Swayne Johnson Solicitors

Busnesau'n bresennol: 7

Adborth: 100% yn dweud bod y gymhorthfa yn dda neu'n ardderchog

Sylw gan fuddiolwr:

*"Mae'r gymhorthfa wedi gwneud i mi sylweddoli bod angen i mi ymchwilio'r mater pwysig yma ymellach"*

## Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

…Sioeau teithiol, digwyddiadau galw heibio a gweithdai penodol i'r sector.

**Targed blynyddol = 70** **Targed a gyflawnwyd = 10**

10 DIGWYDDIAD Cynhaliwyd gyda 497 YN MYNYCHU

LLEIHAU LLYGREDD AMAETHYDDOL 4

FFERMIO AR GYFER Y DYFODOL 3

RHEOLI PORFA YN Y FFINDIR 1

CYNLLUNIO HIR DYMOR AR GYFER COETIR A PHROFFESIYNOLDEB 2

## Grwpiau Trafod

Mae grwpiau trafod Cyswllt Ffermio yn galluogi busnesau i ddysgu gan ei gilydd, i drafod heriau, ystyried cyfleoedd ac o bosibl i ddarganfod ffyrdd newydd neu well o wneud pethau.

83 DIGWYDDIAD Cynhaliwyd gyda 412 YN MYNYCHU

## Astudiaeth Achos

Yn ddiweddar cafodd Grŵp Trafod Llaeth yng Ngorllewin Cymru ymweliad gan Dr David Davies o Silage Solutions a fu'n trafod sut i gynhyrchu silwair da yn ogystal ag egwyddorion silweirio i sicrhau bod gan yr aelodau'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i gynhyrchu silwair o ansawdd gwell. Bu hefyd yn trafod yr hyn sy'n achosi gwastraff a sut i leihau gwastraff.

Cafwyd trafodaeth benodol yn ymwneud â'r ymarferion gorau wrth gynhyrchu silwair, yn cynnwys:

- yr angen i gyflawni DM addas o oddeutu 30%
- sut y dylid silweirio cyn gynted â phosib, o fewn 24 awr yn ddelfrydol
- bod uchder y toriad yn hollbwysig yn dibynnu ar amgylchiadau
- dylai'r torrwr wasgaru'r glaswellt yn ystod llydan yn syth ar ôl torri er mwyn cynorthwyo'r broses sychu
- wrth gribinio, dylai'r ystod fod mor llydan â phosib er mwyn cynorthwyo'r broses sychu ac atal y glaswellt rhag cynhesu yn y cae

Yn ystod y cyfarfod cafodd samplau glaswellt ffres eu cymysgu â dŵr cyn cael eu profi am lefelau N. Trafodwyd y canlyniadau yn ogystal â dulliau chwalu gwrtaith a dyddiadau torri.

## Astudiaeth Achos

LLEIHAU LLYGREDD AMAETHYDDOL 4 DIGWYDDIAD Cynhaliwyd gyda 76 YN MYNYCHU

### Cyswllt Ffermio yn mynd i'r afael â llygredd dŵr ger Pentywyn

Cafodd y cyntaf mewn cyfres o gyfarfodydd sy'n anelu at drechu llygredd dŵr ei gynnal gan Cyswllt Ffermio ger Pentywyn ar y ffin rhwng Sir Gâr a Sir Benfro.

Mae 28 o gyrff dŵr yng Nghymru wedi cael eu henwi fel ardaloedd nad ydynt yn bodloni'r safonau gofynnol. Mae'r cyfarfodydd yn rhan o ymgyrch cenedlaethol ehangach sydd wedi'i anelu at sicrhau ymrwymiad gan y diwydiant i waredu llygredd er mwyn dangos safonau uchel ac enw da ffermio yng Nghymru.

Cafodd mynychwyr gyfle i ddysgu am y ffyrdd y gall Cyswllt Ffermio gefnogi ffermwyr Cymru i wneud newidiadau cadarnhaol. Gall Gwasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio ddarparu cyllid 80% ar gyfer cyngor arbenigol, annibynnol, cyfrinachol wedi'i deilwra ynglŷn â chynllunio rheoli maetholion, rheoli a storio slyri a thail buarth ac isadeiledd fferm. Gall busnesau cymwys sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio hefyd gael mynediad at gyllid 100% (hyd at uchafswm o €1500) fel rhan o grŵp o 3 neu fwy.

"Rydym ni'n hapus iawn gyda'r ymateb gan y gymuned ffermio," meddai Carys Thomas, Rheolwr Rhanbarthol Cyswllt Ffermio. "Mae'n dangos bod ffermwyr yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r mater a'u bod wedi ymrwymo i wella ansawdd dŵr yn yr ardal hon. Roedd y cyfarfod hwn yn ychwanegol i'r grŵp Agrisgôp sydd eisoes wedi cael ei sefydlu i greu a gweithredu dull i ddiogelu a gwella ansawdd dŵr a buddio busnesau ffermio."

Cliciwch yma i ddysgu mwy.

Adborth gan ffermwyr yn bresennol:

*"Mae cymorth a chefnogaeth ardderchog ar gael ar gyfer ffermwyr i wneud gwelliannau syml a chost effeithiol"*

*"Mae'n bwysig gofyn am gyngor"*

*"Rwyf bellach â gwell dealltwriaeth o'r broblem llygredd amaethyddol"*

*"Rwyf wedi dysgu cymaint y mae dŵr yn effeithio storio slyri"*

*"Mae angen i mi fod yn fwy ymwybodol o ddeddfwriaethau"*

## Gwefan a Chyfryngau Cymdeithasol Cyswllt Ffermio

| | |
|---|---|
| Nifer yr ymweliadau tudalen unigryw (Mawrth – Mai 18) | 79,257 |
| Cyfartaledd yr amser a dreulir ar y wefan | 00:01:33 |
| Nifer y dilynwyr ar Twitter (30.05.18) | 4,140 |
| Nifer o hoffwyr ar Facebook (30.05.18) | 7,210 |

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government